

Pwyllgor Cyswilt Ystadegol Cymru
Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2019
Llandudno (gyda chysylltiad fideo-gynadledda â Pharc Cathays, Caerdydd)

Yn bresennol

Sue	Leake	SL	Llywodraeth Cymru(LIC) – Cadeirydd
Tom	Brame	TB	Data Cymru
Daniel	Cummings	DC	Data Cymru
Vicki	Doyle	VD	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Janine	Edwards	JE	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Duncan	Harris	DH	Cod Synhwyrol
Leanne	John	LJ	Dinas a Sir Abertawe
Glyn	Jones	GJ	Llywodraeth Cymru (LIC)
Hywel	Jones	HJ	Prifysgol Caerdydd
Steve	King	SK	Dinas a Sir Abertawe
Duncan	McKenzie	DM	Data Cymru
Aine	McGuire	AM	SensibleCode.io
Lowri Wyn	Morton	LWM	Cyngor Gwynedd
Lesley	Rees	LR	Cyngor Sir Caerfyrddin (drwy Skype)
Zoe	Strawbridge	ZS	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Alison	Vaughan	AV	Cyngor Sir Ceredigion
Nia	Wyn Jones	NWJ	Cyngor Gwynedd

Cymerwyr nodiadau / Cyfieithwyr ar y pryd

Rebecca	Large	RL	Llywodraeth Cymru
Chelsea	John	CJ	Llywodraeth Cymru
Siôn Aled	Owen	SO	Geirda, Cyfieithydd ar y pryd
Sioned Elin	Jones	SJ	Lingo, Cyfieithydd ar y pryd

Siaradwyr nad ydynt yn mynychu drwy'r dydd

Suzie	Dunsmith	SD	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Sean	Harper	SH	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Adam	Kelly	AK	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Neil	Townsend	NT	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Melanie	Brown	MB	Llywodraeth Cymru
Rachel	Dolman	RD	Llywodraeth Cymru
Gareth	Hall	GH	Llywodraeth Cymru
Luned	Jones	LJ	Llywodraeth Cymru
Martin	Parry	MP	Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Chris	Clarke	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Lee	Clarke	Cyngor Sir Caerdydd
Owen	Hathway	Chwaraeon Cymru
Martin	Jennings	Comisiwn y Cynulliad
Helen	Jones	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Paul	Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Ann-Marie	McCafferty	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
William	Miles	Cyngor Sir Fynwy
Geraint	Morgan	Cyngor Sir Powys
Rhys	Powell	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nita	Sparkes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Andrew	Stephens	Data Cymru
Andy	Wilson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

1	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
	Agorodd SL y cyfarfod a chroesawu pawb.	
2	Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am bwyntiau gweithredu	
	Cytunwyd ar nodyn y cyfarfod diwethaf. Cynigiodd DM roi'r diweddaraf ar ei bwyntiau gweithredu eitem 3 ar yr agenda. Ni thrafodwyd pwyntiau gweithredu eraill sydd heb eu cyflawni,	
3	Adolygiad o bapurau gwybodaeth	
	Wrth drafod Cylchlythyr Ystadegau Llywodraeth Cymru (LIC): - Darparodd SL ragor o wybodaeth am yr adroddiad tldi tanwydd manylach y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn yr haf, a fydd ar lefel Cymru gyfan, ond gyda dadansoddiadau yn ôl y math o ddeiliadaeth a chartref, y math o annedd ac ati. Rhagwelir y bydd mapiau lefelau is o lefelau tldi tanwydd a ragwelir ar gael yn yr Hydref. - Rhoddodd GJ y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am yr asesiad Ystadegau Gwladol o adroddiad Llesiant Cymru. Caiff y gwaith hwn ei oedi tan y flwyddyn nesaf oherwydd y newid yn y fformat ar gyfer y cyhoeddiad nesaf (mis Medi). Ychwanegodd fod rhywfaint o'r adborth cychwynnol gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru gasglu mwy o dystiolaeth ar sut y defnyddir yr adroddiad, ac anogodd pawb a oedd yn bresennol i roi adborth ar y ffordd maent yn defnyddio cynnyrch, yn ysgrifenedig os oes modd. - Rhoddodd GJ hefyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am gyfraniad LIC at Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol	Cam gweithredu: Pawb i roi unrhyw adborth ar sut maent yn defnyddio adroddiad Llesiant Cymru i'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (neu i LC i gael ei anfon ymlaen) Cam gweithredu: LIC i ddosbarthu Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU (Saesneg yn unig) pan fydd ar gael Cam gweithredu: Gwahodd SYG i gyfarfod yn y dyfodol i siarad am eu datblygiad o ddata incwm Cam gweithredu: GJ i ddosbarthu neges e-bost Geraint Morgan ynghylch data nifer yr hawlwyd Cam gweithredu: DM i ddosbarthu'r ymateb ynglŷn ag enwi MSOA pan fydd ar gael Cam gweithredu: DM i ddosbarthu

y DU yn erbyn yr 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy. Caiff y gwaith hwn ei gyflwyno yn Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y CU ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Efrog Newydd ym mis Gorffennaf, ac mae'n cynnig golwg cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru, yn ogystal ag astudiaethau achos y trydydd sector. Caiff ei ddosbarthu i'r grŵp pan fydd yn barod. - Rhoddodd GJ y wybodaeth ddiweddaraf am Lle, ac roedd fersiwn newydd am gael ei lansio (fersiwn alffa) yn yr wythnosau nesaf. Mae'r gwaith hwn wedi creu llawer o ddiddordeb, yn enwedig fel prif brosiect ar gyfer Tasglu'r Cymoedd. Mae cynlluniau i ymestyn Lle i gynnwys mwy na data amgylcheddol, ac i ychwanegu'r posibilrwydd o ddefnyddio mewngofnodion diogel i gael gafael ar ddata trwyddedig, er enghraifft. Mae'n debygol y bydd yr enw'n newid. Bydd arddangosiad ar gael ym mis Medi. Wrth drafod y Diweddariad Demograffeg: - Rhoddodd SL y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp yn fras am waith sy'n digwydd i baratoi ar gyfer Cyfrifiad 2021, yn dilyn cyfarfod y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad i Gymru a gynhaliwyd yn gynharach yn yr wythnos - Holodd JE ynglŷn â mewnbwn gan SYG ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, y disgwylir eu cyhoeddi ar 29 Awst 2019. Dywedodd GJ y byddai LIC yn cysylltu â SYG ynglŷn â hyn. Wrth drafod diweddariad Data Cymru: - Darparodd DM esboniad o ddaearyddiaethau'r Ardal Adeiledig a ddefnyddir ar gyfer Proffilio Lleoedd Cymru. Gofynnodd am adborth gan aelodau ar y ffordd mae'r adnodd yn edrych ac yn teimlo, ar unrhyw ddata ychwanegol y dylid eu cynnwys neu ar y daearyddiaethau gweinyddol a ddefnyddir - Codwyd cwestiwn ynglŷn â gorgyffwrdd â gwaith Ymddiriedolaeth Carnegie ar Ddeall Lleoedd Cymru. Cadarnhaodd DM fod y prosiectau'n ymwybodol o'i gilydd - Yn dilyn trafodaeth ynghylch defnyddio cynhyrchion CACI o gymharu â chynnyrch SYG sydd am ddim, awgrymwyd y dylid gwahodd SYG i siarad â Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (WSLC) am eu data incwm (a gymerir o ddata gweinyddol). Nododd SL fod cynlluniau SYG i gyhoeddi'r data hyn ar lefel ACEHI fel ystadegau swyddogol erbyn 2022 - Cafwyd trafodaeth ynghylch set data Lwfans Ceisio Gwaith a gyhoeddwyd gan SYG. Nodwyd y gallai newidiadau yn y mesurau a ddefnyddir (yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol) arwain at gynnydd amlwg o ran diweithdra. Cyfeiriodd GJ at neges e-bost gan Geraint Morgan (CS Powys) ar destun nifer yr hawlwr, a dywedodd y byddai'n dosbarthu'r e-bost i'r grŵp	fersiwn gychwynnol o ganllawiau ar y data a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer sgorau yng ngwaith Lleoedd Ffyniannus.
---	--

	Nododd SK ddryswch posibl dros ba fesur i'w ddefnyddio wrth i'r Adran Gwaith a Phensiynau lansio cyfrif newydd. Cytunwyd ar y ffaith y dylai unrhyw wybodaeth gael ei rhannu lle y bo'n bosibl - Gofynnodd DM am adborth ar flog DataCymru, a nododd y byddai blogiau gwadd yn cael eu croesawu. - Cafwyd trafodaeth ynghylch enwi Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA). Mae DM wedi cysylltu â SYG am hyn a bydd yn parhau i ddosbarthu'r ymateb pan fydd ar gael - Hefyd, rhoddodd GJ y wybodaeth ddiweddaraf am ddull gweithredu SYG o ran daearyddiaethau Ardaloedd Cynnyrch ar gyfer Cyfrifiad 2021. Mae SYG wedi nodi eu bod ond yn bwriadu newid ardaloedd cynnyrch yn seiliedig ar drothwyon poblogaeth. Nid ydynt yn bwriadu ymgynghori ar hyn; fodd bynnag, caiff ymgynghoriad ei lansio yn hwyrach eleni er mwyn i newidiadau cael eu gwneud yn dilyn Cyfrifiad 2021. Codwyd pryderon ynghylch daearyddiaethau penodol yn cuddio amddifadedd. Mae LIC wedi codi dro ar ôl tro yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad yr angen i ymgynghori ag Awdurdodau Lleol ar ffiniau ardaloedd cynnyrch. - Codwyd cwestiwn ynghylch y dangosyddion a ddefnyddiwyd ar gyfer Mynegai Lleoedd Ffyniannus. Cynigiodd DM ddosbarthu esboniad o'r data a ddefnyddir a'r fethodoleg yn yr ychydig wythnosau nesaf. Croesawyd hyn gan y grŵp er mwyn ychwanegu cyd-destun at y sgorau a roddwyd ac at unrhyw newidiadau i'r mesurau dros amser - Rhannodd TB fod Jenny Murphy wedi gadael DataCymru yn ddiweddar. Mae ei blog gadael (Saesneg yn unig) ar gael ar wefan DataCymru. Diolchodd y grŵp iddi am ei holl gyfraniadau at WSLC - Ychwanegodd GJ fod Ann-Marie McCafferty wedi gadael ei swydd yn ddiweddar i ymgymryd â rôl ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Diolchodd y grŵp iddi am ei chyfraniad at WSLC ac maent yn edrych ymlaen at weithio gyda hi eto, os yw'n briodol, pan fydd wedi setlo yn ei swydd newydd.	
4	Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru	
	Rhoddodd GH y wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith o ddrafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Nododd y byddai ymgynghoriad yn cael ei lansio'n fuan ar y FfDC drafft, gan redeg am 12 wythnos o fis Gorffennaf tan fis Hydref, ac anogodd y rhai hynny a oedd yn bresennol i ledu'r gair a chofrestru ar gyfer cylchlythyr FfDC i gael rhagor o ddiweddariadau. Cynhelir digwyddiadau galw heibio ledled y wlad fel rhan o'r ymgynghoriad, a gellid cael adborth drwy wneud apwyntiad.	Cam gweithredu: Dosbarthu'r ddolen i Ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol pan gaiff ei chyhoeddi

	Rhoddwyd pedwar prif ddiweddariad, sef: • Arwyddocâd yr amcangyfrifon o'r angen am dai, sy'n galluogi LIC i gysylltu system dai â system gynllunio • Bydd meysydd newydd yn cael eu cynnig ar gyfer ffermydd gwynt a solar • Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau), a fydd yn cael yr hyblygrwydd i fynd i'r afael â materion rhanbarthol mewn ffordd na all Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) wneud hynny. Bydd y CDSau yn defnyddio dull gweithredu o'r gwaelod i fyny. Gobeithio y bydd data rhanbarthol sy'n fwy hygyrch yn cefnogi cynlluniau datblygu ar bob lefel • Cefnogaeth gadarn ar gyfer y dull llunio lleoedd a gyflwynir gan Bolisi Cynllunio Cymru a phwysigrwydd creu lleoedd llwyddiannus a gweithredol. Codwyd cwestiynau am ddefnyddio'r term 'twf cynaliadwy' ac am wahaniaethau a wnaed rhwng tyfu a datblygu; am ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; ac am dargedau anghenion tai yn yr FfDC a pha mor gyfredol yw'r data a ddefnyddir. Esboniodd GH er y gallai termau am dwf gael eu defnyddio, maent wedi ystyried materion datblygu ehangach megis newidiadau cymdeithasol-demograffig. Nid yw'r FfDC wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu ardaloedd trefol, mawr, ond ar gyfuno a chefnogi cymunedau sy'n bodoli eisoes. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn ymwneud â'r gwaith hwn, ac mae'r FfDC drafft wedi bod yn destun arfarniad o gynaliadwyedd integredig er mwyn adolygu effaith unrhyw gynllun a wnaed ar ffactorau megis effaith amgylcheddol. Tra bod yr FfDC yn cynnwys data ar anghenion tai, ni fydd yn gosod targedau tai penodol ar gyfer rhanbarthau. Tra bod yr ymgynghoriad drafft yn seiliedig ar amcanestyniadau 2014 ar gyfer y data hyn, gobeithio y caiff hyn (a data eraill a ddefnyddir) eu diweddaru ar gyfer fersiynau dilynol lle y bo'n bosibl. Cynigiodd GH i ddarparu diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref, a gynhelir yn ystod wythnosau olaf yr ymgynghoriad.	
5	Adnodd Dadansoddi'r Angen a'r Galw am Dai	
	Gwnaeth LJ gyflwyniad ar yr Amcangyfrifon o'r Angen am Dai yng Nghymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ôl Deiliadaeth (seiliedig ar 2018). Sleidiau ar gael. Mae'r ail gyhoeddiad hwn (yn dilyn yr Amcangyfrifon o'r Angen am Dai yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019) yn rhannu'r amcangyfrifon o'r angen am dai yn ddwy	

	ddeiliadaeth dai sef tai'r Farchnad a thai Fforddiadwy, am y pum mlynedd gyntaf o amcangyfrifon (2018/19 i 2022/23). Dangosodd MB adnodd Excel a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r erthygl, a oedd yn galluogi defnyddwyr i archwilio data a rannwyd rhwng pedair deiliadaeth. Ni chafodd y rhain eu cynnwys yn y brif erthygl gan fod y tybiaethau'n llai sicr. Gofynnwyd am eglurhad o beth yn union roedd y data'n cyfeirio ato. Cynigiodd LJ y diffiniad canlynol: Mae'r ffigurau yn yr erthyglau'n cyfeirio at yr angen am unedau tai ychwanegol. Diffinnir termau fel a ganlyn: Ar y cyfan mae'r Angen am Dai yn seiliedig ar ddwy elfen: • Angen Presennol sydd Heb ei Ddiwallu: Nifer yr aelwydydd lle nad oes digon o dai ac y byddai angen uned tai ychwanegol arnynt. Ni chaiff y rhai hynny y gall fod angen tai mwy priodol arnynt ond na fyddai angen uned ychwanegol eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn • Angen Newydd: Nifer ragamcanol yr aelwydydd newydd y bydd angen unedau tai ychwanegol arnynt am gyfnod yn y dyfodol Ni ddylid defnyddio'r amcangyfrifon o'r angen am dai fel targed tai yng Nghymru. Croesewir adborth ar yr erthygl a/neu'r adnodd Excel.	
6	Ystadegau Rhanbarthol	
	Cyflwyniad a roddwyd gan RL yn rhoi gwybod i'r grŵp am gyhoeddiad diweddar gan LC gan ddarparu ystadegau ar bynciau allweddol ar gyfer tri rhanbarth economaidd Cymru, fel y diffinnir yn y Cynllun Gweithredu Economaidd. Sleidiau ar gael. Cafodd yr adroddiadau hyn eu paratoi i gefnogi'r gwaith o ddrafftio'r FfDC, a hefyd i ymateb i anghenion defnyddwyr. Croesewir y datblygiad gan aelodau. Cam nesaf y gwaith hwn yn LIC yw diweddarau'r data a gyhoeddwyd ar StatsCymru i gynnwys y tri rhanbarth, ac yna cynhyrchu dangosfyrddau i gyflwyno'r data hyn. Esboniodd RD y byddai'r gwaith yn broses ailadroddus, gyda thimau'n diweddarau ciwbiau yn seiliedig ar ba ddata sy'n briodol a defnyddiol ar lefel ranbarthol. Gofynnwyd cwestiwn am sut mae'r gwaith hwn yn rhan o ddata rhanbarthol eraill, er enghraifft ar gyfer y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Esboniodd RD er y gellid defnyddio'r rhain gyda'i gilydd, roedd ystod y data'n cynnwys adroddiadau'r LIC a byddent yn ehangach ac yn fwy trawsbynciol yn y dangosfyrddau arfaethedig.	
7	Trosolwg o waith gyda Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU ar gyfer cyfrifiad 2021 (a elwir yn system ledaenu hyblyg)	
	Dywedodd NT a SH fod SYG yn ymrwymedig o hyd i	Cam gweithredu: SYG i anfon

gyflawni canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn gynharach, yn fwy hyblyg ac yn fwy hygyrch nag o'r blaen. Maent wedi bod yn gweithio gyda Chod Synhwyrrol ar brototeip ar gyfer lledaenu data Cyfrifiad. Mae'r Ystadegydd Gwladol wedi cytuno ar y dulliau a'r dull gweithredu yn amodol ar ymarfer. Bydd y prototeip yn symud i'r cam adeiladu yn fuan. Mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar ofynion o ran y Gymraeg. Aelodau i gysylltu â SYG os yw hyn o ddiddordeb. Nododd SYG fod disgwyl i'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau gyhoeddi adroddiad asesiad cam cyntaf ar achrediad YG ar 12 Mehefin. Er bod y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi cwblhau adborth defnyddwyr ar gyfer hyn byddent yn croesawu unrhyw adborth ychwanegol gan ddefnyddwyr o hyd. Gwnaeth DH ac AM gyflwyniad ar gefndir eu gwaith gyda SYG a dangos y prototeip. Sleidiau ar gael. Mae'r system ledaenu hyblyg (a elwir yn Tablebuilder) yn cynnwys techneg Rheoli Datgeliadau Ystadegol amser real sy'n galluogi defnyddwyr i greu cynnyrch mewn amser real. Dangosodd AM sut mae'r prototeip yn trin dadansoddiadau a fyddai'n methu profion cyfrinachedd. Gofynnwyd nifer o gwestiynau am sut mae'r prototeip yn gweithio, a gwnaed sylwadau ar yr hyn y byddai aelodau am eu gweld yn y cynnyrch terfynol: • Cadarnhaodd AM pe baech yn rhedeg yr un bwrdd ar adegau amrywiol byddech yn cael yr un canlyniadau. • Cadarnhaodd AM/DH fod y prototeip yn caniatáu i ragor o fanylion gael eu cyflwyno ar gyfer grwpiau gwahanol o'r boblogaeth os bydd y maes penodol o ddiddordeb yn fwy amrywiol (a thrwy hynny'n caniatáu i ddata gael eu cyflwyno heb dorri rheolau cyfrinachedd). Roedd hwn yn amcan a nodwyd gan SYG ar gyfer y cynnyrch. • Cadarnhaodd aelodau y byddai'n ddefnyddiol i allu arbed ymholiadau y gellid eu hailadrodd neu eu rhannu ag eraill. • Hefyd, nododd aelodau y byddai'n ddefnyddiol pe byddai dadansoddiadau/tablau penodol yn gallu cael eu hadnabod gan label neu fetadata fel y gallai defnyddwyr gwahanol fod yn sicr eu bod yn cyfeirio at yr un dadansoddiad. • Codwyd cwestiynau manwl am y ffordd y byddai'r system yn rheoli'r broses o adrodd ar ddata 'nad oedd ar gael'. Gwnaeth SYG a Chod Synhwyrrol gydnabod fod rhaid gallu gwahaniaethu rhwng y data sydd â gwerth 0 a data nad ydynt ar gael. • Cadarnhawyd na fyddai'r system yn cael ei chyfyngu fel na fydd cyfansymiau o ardaloedd llai efallai'n cyfateb i'r canlyniad ar gyfer ardal ehangach e.e. efallai na fydd swm yr Ardaloedd Cynnyrch mewn Awdurdod Lleol yn cyfateb yn union i gyfanswm yr Awdurdod Lleol. Cwestiynodd DC sut roedd y model yn gweithio o ran	manyion cyswllt ar gyfer pecyn lledaenu gofynion o ran y Gymraeg at y Cadeirydd i'w ddosbarthu i'r grŵp
---	--

	ardaloedd adeiledig a chafodd ei gynghori i gysylltu â thîm Cynnyrch Cyfrifiad SYG (Chris Ashford). Gofynnodd LR a fyddai'r model yn disodli SASPAC. Ymatebodd SYG gan ddweud bod popeth sydd ar SASPAC bellach ar Nomis a gan fod SASPAC yn gynnwys GLA yna GLA fydd yn penderfynu ar ddyfodol SASPAC. Yn dilyn cwestiwn gan VD ynglŷn â'r amserlen ar gyfer y cynnyrch terfynol, nododd SYG nad yw'r amserlen rhyddhau wedi'i chadarnhau eto. Gofynnodd VD hefyd a fyddai cyfle i ddefnyddwyr brofi'r system ymlaen llaw. Nododd SYG yn ddelfrydol y byddent yn hoffi iddi fod ar gael gyda data prawf ymhell cyn y Cyfrifiad.	
8	Diweddaru'r cyfrifiad a datblygu'r holiadur gan gynnwys cwestiynau Cymraeg	
	Cyflwynodd SH ar ran Adam Kelly ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu a phrofi'r cwestiynau Cymraeg ar gyfer holiadur Cyfrifiad 2021. Sleidiau ar gael. <i>Dull:</i> Ar y cyfan nododd aelodau yr effaith bosibl y gall symud o gyfrifiad papur yn bennaf i gyfrifiad ar-lein yn bennaf ei gael ar y dull, gan gynnwys yr effaith ar amcangyfrifon y Gymraeg. <i>Lleoliad yn yr holiadur:</i> Ar y cyfan roedd aelodau'n gefnogol o gadw'r drefn yr un fath â 2011 gymaint â phosibl er mwyn cymharu â data Cyfrifiad 2011 i'r eithaf (gan dderbyn yr effaith ar y dull uchod) - ystyriwyd hyn yn ateb delfrydol o safbwynt dylunio'r arolwg. Gwnaeth aelod hefyd awgrymu defnyddio sgoriau tuedd yn y dadansoddiad (gan awgrymu pecyn R) er mwyn deall gwahaniaethau 'go iawn' yn well o ystyried bod proffil y sampl ychydig yn wahanol yn V1 a V4. Roedd ychydig o drafodaeth ynglŷn â chael trefn wahanol ar bapur ac ar-lein. <i>Cyflwyno'r cwestiynau Cymraeg:</i> Nododd aelodau ar y cyfan faterion ynghylch ansawdd y data pan gafodd y cwestiwn Cymraeg ei rannu'n bedwar cwestiwn. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y gweithrediadau sy'n annibynnol ar ei gilydd. Roedd y grŵp yn cytuno'n gyffredinol na ddylid defnyddio'r gweithredau sy'n annibynnol ar ei gilydd. Roeddent o'r farn os bydd ymatebydd yn ticio unrhyw sgil Cymraeg a 'Dim un o'r uchod', yna dylai'r sgil gael blaenoriaeth dros 'Dim un o'r uchod', h.y. Dylid dileu 'Dim un o'r uchod'. Gofynnodd aelodau a oedd hi'n bosibl defnyddio'r gweithrediad ar-lein a chael neges rybudd os bydd rhywun yn dewis cyfuniad anghyson. Yn ogystal â sylwadau ar gynigion ar gyfer y cwestiwn Cymraeg gwnaeth aelodau sylwadau ar y cwestiwn arfaethedig am ethnigrwydd sy'n galluogi'r categori 'Cymraeg' i gael ei gynnwys yn yr ethnigrwydd 'Gwyn' yn	Cam gweithredu: NT i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am safbwynt SYG ar y broblem o ethnigrwydd

	unig. Nododd aelodau fod holiadur arfaethedig yr Alban yn caniatáu'r categori Du/Asiaidd Albanaidd, a gwnaethant ail godi'r pryderon a fynegwyd mewn Cyfrifiadau blaenorol gan y rhai hynny a oedd am gael eu cydnabod fel Cymry. Cytunodd aelodau fod hyn yn broblem â chydarddoldeb yn hytrach na phroblem ag anghenion defnyddiwr. Mae GJ wedi cyflwyno sylwadau i SYG am y broblem hon.	
9	Rhannu Gwybodaeth	
	Cynghorodd JE y byddai tri digwyddiad CDLI yng Ngogledd Cymru gan gynnwys dau mewn perthynas â CDLlau sy'n cymryd lle hen rai yng Nghonwy a Sir Ddinbych. VD – Adrodd blynyddol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Gan fod yr asesiad llesiant wedi cael ei baratoi dros ddwy flynedd yn ôl bydd yn cael ei adolygu a'i adnewyddu'n fuan. Maent wedi bod yn gweithio gyda Data Cymru i ddatblygu asesiad llesiant ar-lein, gan ddefnyddio Power BI a gaiff ei lansio yn y gynhadledd flynyddol ar 15 Gorffennaf 2019. Os yw hyn o ddiddordeb i unrhyw un gallai gyflwyno hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.	
10	Unrhyw fater arall	
	Rhannwyd rhai eitemau o unrhyw fater arall gan GJ: • Mae SYG wedi cyhoeddi erthygl ar strydoedd mawr ym Mhrydain Fawr a gellir ei ddosbarthu os oes gan rywun ddiddordeb ynddo • Disgwylir i John Pullinger, yr Ystadegydd Cenedlaethol, adael a bydd Jon Athow yn cymryd ei le dros dro • Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Hydref 2019 gyda'r awgrym ein bod yn cael cyfarfod ar y cyd â Phanel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector. Lleisiwyd safbwyntiau ynghylch a fyddai cyfarfod ar y cyd yn gweithio'n dda ac i ba raddau y byddai sefydliadau'r Trydydd Sector sy'n cael eu cynnwys yn teimlo bod yr agenda'n berthnasol iddynt. Llywodraeth Cymru i ailystyried a yw cyfarfod ar y cyd yn briodol. Trafodwyd syniadau ar gyfer eitemau ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol ac roeddent yn cynnwys y canlynol: • Gwaith SYG ar amcangyfrifon incwm ardal fach • Defnyddio Power BI • Fframwaith Datblygu Cenedlaethol • Data Lwfans Ceisio Gwaith a Diwygio Lles • Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cyfrifiad • Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Gwnaeth aelodau argymhell y dylai cyfarfodydd yn y dyfodol gynnwys yr opsiwn i fideo-gynadledda ble bynnag roedd y cyfarfod yn cael ei gynnal gan ei fod yn galluogi cyfranogiad ehangach.	Cam gweithredu: LIC i ystyried a yw cyfarfod WSLC/TSSUP ar y cyd yn briodol Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfleusterau fideo-gynadledda ar gyfer cyfarfodydd WSLC yn y dyfodol

Rhif	Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu	
1.	Pawb i roi unrhyw adborth ar sut maent yn defnyddio adroddiad Llesiant Cymru i'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (neu i LC i gael ei anfon ymlaen)	Pawb
2.	LIC i ddosbarthu Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU (Saesneg yn unig) pan fydd ar gael	GJ
3.	Gwahodd SYG i gyfarfod yn y dyfodol i siarad am ddatblygiad data incwm	GJ
4.	Dosbarthu neges e-bost Geraint Morgan ynghylch data nifer yr hawlwyd	GJ
5.	DM i ddosbarthu'r ymateb ynglŷn ag enwi MSOA pan fydd ar gael	DM
6.	DM i ddosbarthu fersiwn gychwynnol o ganllawiau ar y data a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer sgorau yng ngwaith Lleoedd Ffyniannus.	DM
7.	Dosbarthu'r ddolen i Ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol pan gaiff ei chyhoeddi	SL
8.	SYG i anfon manylion cyswllt ar gyfer pecyn lledaenu gofynion o ran y Gymraeg at y Cadeirydd i'w ddosbarthu i'r grŵp	SD (SYG)
9.	NT i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am safbwynt SYG ar y broblem o ethnigrwydd	NT
10.	LIC i ystyried a yw cyfarfod WSLC/TSSUP ar y cyd yn briodol	SL/GJ
11.	Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfleusterau fideo-gynadledda ar gyfer cyfarfodydd WSLC yn y dyfodol	Ysgrifenyddiaeth